# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Ebrill 2024 – Cyfrol 9 – Rhifyn 7

## Ymweliad gweinidog â siop Llandyrnog




Ddydd Iau, 14 Mawrth, roedd yn bleser gennym groesawu Felicity Buchan, AS, Ysgrifennydd Gwladol Seneddol Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau i ymweld â phrosiect siop a swyddfa bost Llandyrnog a gweld y cynlluniau sydd ar y gweill. Roedd yn falch o weld sut y bydd yr arian grant yn cael ei ddefnyddio ac fe gafodd daith o gwmpas yr adeilad.

Roedd hefyd yn bleser croesawu Dr James Davies, AS; y Cynghorydd Sir, Emrys Wynne; Gwen Butler, Is-gadeirydd Cyngor Cymuned Llandyrnog, ac aelodau o'r gymuned a ddaeth i weld y gwaith sydd wedi'i ddechrau.

Os hoffech glywed mwy am ein gwaith a gweld sut mae pethau yn symud ymlaen, cysylltwch â ni ar ein tudalen Facebook neu drwy e-bost: llandyrnogcommunityshop@btinternet.com.

*Emyr Morris*

Pasg hapus i'n holl ddarllenwyr!



# Pytiau newyddion y pentre

Roedd clywed am farwolaeth Barbie Major, Llawog Isa, yn newyddion trist iawn a chydymdeimlwn yn ddwys â'i theulu. Roedd Mrs Major yn 100 oed ac wedi bod yn aelod o Fyddin y Tir yn ystod y rhyfel. Roedd yn parhau i fod yn weithgar ym mywyd y pentre tan yn ddiweddar iawn, a fis Tachwedd diwetha roedd hi wedi mynd i Lundain i fod yn bresennol yng ngwasanaeth Sul y Cofio.

Rydym yn gobeithio bod Arwyn Pierce yn gwella ar ôl ei salwch diweddar. Dymuniadau gorau am wellhad buan hefyd i Elwyn Evans, Ger y Llan ac i Gwyn, Plas Bennett, y ddau wedi cael triniaeth yn ddiweddar yn yr ysbyty.

Mae perchnogion Gwinllan y Dyffryn, Rhys a Gwen Davies wedi bod i'r arddangosfa gyntaf o win Cymreig yn Llundain. Fe gawson nhw hefyd yr anrhydedd o gael eu tywys o gwmpas y Senedd a mynd i dderbyniad yn 10 Stryd Downing.

Llongyfarchiadau i Lloyd Powell sydd wedi ei ddewis i gynrychioli Cymru yn chwarae offer taro ym mhencampwriaeth Ieuenctid Ewrop yn Lithuania ym mis Mai. Mi fydd yn chwarae gyda band ieuenctid Biwmares ac yn teithio trwy Warsaw i gystadlu. Am brofiad a llwyddiant bythgofiadwy. Pob lwc Lloyd!

Llongyfarchiadau hefyd i Catherine Howarth ar ennill y wobr ryddiaith yn Eisteddfod Dysgwyr y Gogledd Ddwyrain; i Chris a Ruth Griffith sydd newydd ddathlu eu pen blwydd priodas saffir – 65 mlynedd; ac i Heidi Palin ar ei buddugoliaeth gyntaf ym maes rasio ceffylau yn Rasys Henffordd yn ddiweddar.

Beth ddigwyddodd hanner can mlynedd yn ôl ar y 10fed o Ebrill? Mi aeth Gwyn Gader Goch am Awstralia ar ei BEN BLWYDD yn ugain oed. Felly Gwyn, PEN BLWYDD HAPUS yn 70 oed. Llawer o gariad gan Menna, Aeron, Alun, Rhys ac Iola a'r teulu. xxxx

Dymuniadau da i Charlie, 2 Maes Clwyd, a Becca, Sgubor Efa, ar eu pen blwydd yn 18 oed; i Menna Davies, a fydd yn dathlu ei phen blwydd yn 90 ar 3 Ebrill, ac i Rob Dowell, sydd newydd gael pen blwydd arbennig – yn bensiynwr rŵan.

Bydd Cynghrair Pêl-droed yr Haf Llandyrnog yn dechrau nos Lun, 15 Ebrill, a'r gic gyntaf am 6.45. Bydd rhagor o fanylion ar gael yn fuan drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Dymunwn bob hwyl i Dafydd Roberts a'i gyd-weithiwr yn Gamlins, Ron Davison, wrth i'r ddau baratoi i ddringo Kilimanjaro, mynydd uchaf Affrica. Maen nhw'n gwneud hyn i godi arian at Prostate Cancer UK ac elusen iechyd meddwl sector y gyfraith, LawCare. Cyn iddyn nhw hedfan i Tanzania ym mis Medi, mae Dafydd hefyd yn gwneud yr her '62 milltir ym mis Mawrth' ar gyfer Cancer Research UK.

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Sadwrn | $6^{ed}$ | Grŵp crefftau, 10am–4pm |
| Llun | $6^{fed}$ | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |
| Mawrth | $9^{fed}$ | Pwyllgor y Sioe Flodau, 7pm |
| Sul | $14^{eg}$ | Llan Llanast 3.30–6pm |
| Llun | $15^{fed}$ | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |
| Mercher | $17^{eg}$ | Cyfarfod cyhoeddus y siop gymunedol, 7pm |
| Llun | $22^{ain}$ | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |
| Gwener | $26^{ain}$ | Grŵp seryddiaeth, 7–10pm |
| Sad | $27^{ain}$ | Bore coffi – yr eglwys, 10–11.30am |
| Llun | $29^{ain}$ | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |

**I hurio'r neuadd, cysylltwch ag Ivan Butler ar 07799 570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com.**

# Hwb Llandyrnog 2024

Mae'n bleser gan ferched yr Hwb ddweud y bydd yr Hwb yn agor eto eleni. Y bwriad yw agor pafiliwn Cae Nant bob mis – 17 Ebrill a 15 Mai rhwng 11 y bore a 3 o'r gloch y pnawn yw'r dyddiadau cyntaf i'ch dyddiadur. Bydd coffi, te, cacennau a chwmni da ar gael, wrth gwrs, ond rydym ni hefyd yn gobeithio gwerthu blodau a llysiau organig.

Byddwn yn dal ati tra bydd arian a staffio yn caniatáu hynny. Gyda'r arian a gawsom ni y llynedd drwy grant o'r Gronfa Cynhwysiant Cymdeithasol, rydym wedi gallu prynu offer fel uned i arddangos cacennau, cypyrddau ac offer i'r gegin, yn ogystal â chyfrannu at wresogi gwell yn y pafiliwn. Rydym hefyd yn gobeithio prynu ramp i gadeiriau olwyn, ar ôl i ni gael benthyg un y llynedd. Trwy eich cyfraniadau caredig, rydym wedi talu am y cyflenwadau bwyd a diod ein hunain, felly diolch i chi am hynny. Byddwn yn parhau i dderbyn cyfraniadau yn hytrach na gofyn am dâl.

Edrychwn ymlaen at eich gweld chi ddydd Mercher, 17 Ebrill.


**Prompt Travel**

**Taxi & Private Hire**

**4, 8 & 16-seat vehicles**
**24 hrs 7 days a week**

**Incorporating Vale Private Hire**

**01824 790485**
**07974 862027**

**Teithiau Prydlon**

**Tacsi a Hurio Preifat**


# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Maw | 2il | Clwb Llyfrau, 10–11am<br>Sefydliad y Merched, 7pm |
| Mer | 3ydd | Cyfarfod Pwyllgor *Llais Llandyrnog*, 7pm |
| Llun | 8fed | Grŵp gweu a chrosio, 10am<br>Trefoil Guild, 2pm |
| Mer | 10fed | Undeb y Mamau 2pm |
| Iau | 11eg | Cymhorthfa etholaeth Dr James Davies, AS, 10.30am–1pm |
| Llun | 15fed | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Maw | 16eg | Clwb Llyfrau, 10–11am<br>Cyngor Cymuned, 7pm |
| Mer | 17eg | Tuesday Club, 2pm |
| Llun | 22ain | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Llun | 29ain | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Maw | 30ain | Clwb Llyfrau, 10–11am |

*I logi'r Ystafelloedd Coco, anfonwch e-bost at Mrs Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk*

## Gwasanaethau eglwys St Tyrnog

| | | |
|---|---|---|
| 7fed | 11.15am | Cymun Bendigaid |
| 14eg | 11.15am | Cymun Bendigaid |
| | 3.30 pm | Llan Llanast yn Neuadd y Pentre |
| 21ain | 11.15am | Cymun Bendigaid |
| 28ain | 11.15am | Boreol Weddi |

## Gwasanaethau Capel y Dyffryn

| | | |
|---|---|---|
| 7fed | 11.00 | Gwenda Humphreys |
| 14eg | 9.45 | Parch. Andras Iago |
| 21ain | 9.45 | Llinos Mary Jones |
| 28ain | 11.00 | Parch. Hugh Pritchard |



# Hanesion Hazel




O’r diwedd mae’r Gwanwyn rownd y gornel; amser i wisgo’r menig garddio a mwynhau’r haul. Mae’r gaeaf hwn wedi bod yn un diflas – y gwyntoedd garw o’r dwyrain, tymheredd digon rhewllyd a stormydd bygythiol yn ein gorfodi ni aros yn ein tai. Ond mae’r newid ar droed – digonedd o flodau cennin Pedr melyn hardd ar hyn o bryd, ac mi ddaw’r tiwlipau amryliw yn ddiweddarach yn y mis.

Eleni, rydw i wedi gweld cynnydd mawr yn y sosin bach glas (*grape hyacinth*) yn yr ardd. Maen nhw’n medru bod yn ymledol ac wedi dod, mwy na thebyg, o’r bylbiau a blannwyd gan fy rhieni flynyddoedd yn ôl. Maen nhw’n edrych fel bwnsied o rawnwin glas ac yn tyfu yn yr haul neu mewn cysgod. Mae’r planhigion bach newydd yn dod i’r golwg ym mhob man lle mae’r hadau wedi’u casglu, neu wedi’u lledaenu gan adar – mae’n amhosib torri holl bennau’r blodau gwywedig i atal hyn. Maen nhw’n blanhigion byr, llon – pob un yn stwcyn bach sy’n codi calon lle bynnag y gwelwch chi nhw. Felly dwi ddim wir yn malio! Pan symudom ni yma o Formby, cododd fy rhieni eu hoff lwyni, gan obeithio eu hailblannu yn yr ardd newydd. Yn yr hen ardd wrth ymyl y traeth, roedd digonedd o flodau lili’r dyffryn yn tyfu yno (blodau siâp clychau ag arogl hyfryd). Roedden nhw’n ffynnu yn y priddoedd tywodlyd rhwng y coed pinwydd oedd yn amgylchynu’r tŷ. Roedd y bylbiau bychain yma wedi eu codi ar hap efo’r prysgwydd ac wedi teithio i Ogledd Cymru! Fe wnaethon nhw eu gorau i dyfu, ond yn y diwedd, methu goroesi yn y tywydd Cymreig garw ac ansawdd y tir. Daeth cennin Pedr yn eu lle.

Gafodd rai ohonoch chi fwlb Amarylis y Dolig diwetha’? Mi ges i un, ac maen nhw ’n rhai o’r rhai hawsaf a’r mwyaf trawiadol i’w tyfu. Cadwch lygad allan amdanyn nhw’n hwyr yn y flwyddyn mewn archfarchnadoedd a chanolfannau gerddi mewn ‘bocs presant’ yn cynnwys bwlb, pridd a photyn. Maen nhw’n tyfu’n flodau rhwysgfawr a lliwgar. Os gawsoch chi un yn bresant, rŵan ydi’r amser i’w drin er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn blodeuo’r flwyddyn nesa. Torrwch y blodau fel maen nhw’n edwino, ac unwaith y byddant i gyd wedi gorffen blodeuo, torrwch y coesyn uwchben y bwlb. Bydd yn tyfu nifer o ddail cryf yn ystod yr wythnosau i ddilyn. Rydw i’n ei gadw tu mewn hyd nes bod y tywydd yn cynhesu, yna ei roi yn y tŷ gwydr dros yr haf. Mae angen i’r dail roi egni’n ôl i’r bwlb i’w dewychu. Pan ddaw’r tywydd oerach yn yr Hydref, a chyn i’r rhew gyrraedd, mi fydda i’n torri’r dail i gyd a’i roi am 6–8 wythnos yn fy ‘nhŷ pobi’ oer a thywyll. Mi fydda i’n dod â fo wedyn yn ôl i’r tŷ, a chroesi bysedd nad ydi o wedi marw, ac nad oes ’na ’run llygoden wedi ei fwyta! Mi fydda i’n ei roi ar lintar ffenest yn wynebu’r De, a, ’mhen dim o dro, mi ddaw yna flagur gwyrdd a choesyn. A gyda lwc mi gewch chi sioe ryfeddol arall o’r blodyn hardd yma.

Mae’r cennin Pedr ar fin dechrau gwywo erbyn hyn, ond edrychwch allan am garpedi o glychau’r gog yn ein coetiroedd. Ewch am dro i lawr Lôn Goch neu’r lôn o Smithy Cottage, ac mi gewch eu gweld ym mhob man. O holl flodau’r gwanwyn, y blodau tylwyth teg yma ydi fy ffefryn. Am ennyd fer, mae’r sioe hudol yn trawsnewid coetir di-liw yn gyfareddol. Ewch i’w gwerthfawrogi nhw – buan iawn y byddan nhw wedi diflannu wrth i’r coed ddeilio ac atal goleuni’r gwanwyn.

**Hazel**



# Ysgol Bryn Clwyd

Mae hi wedi bod yn hanner tymor hynod o brysur. Y pwnc ar draws yr ysgol oedd y fforest law. Gwnaeth dosbarth y babanod gacennau a'u gwerthu i'r dosbarth iau i godi arian i fabwysiadu orangwtan, ac aeth yr ysgol gyfan i Sw Caer. Roedden ni'n ffodus iawn i weld y jiráff a oedd newydd ei eni.






Daeth dosbarth babanod Ysgol Gellifor at ddosbarth y babanod yma i ymarfer eu Cymraeg, gan fwynhau helfa wyau Pasg.

Fe wnaethon ni ddysgu llawer gan Jac, a soniodd am brofiadau pobl â nam ar eu golwg.



Daeth athro o Gerdd Cydweithredol Sir Ddinbych i roi gwersi i ni ar chwarae'r glockenspiel.



# Ysgol Bryn Clwyd: parhad

Cymerodd yr ysgol gyfan ran yn yr E-steddfod – eisteddfod ar-lein. Fe gawson ni ddiwrnod gwych a llawer o lwyddiant yn y cystadlaethau i gorau, llefaru, canu, celf a llenyddiaeth.



Cymerodd tîm o'r ysgol ran yn nhwrnamaint pêl-droed pump bob ochr Dyffryn Clwyd, a mwynhau'n fawr iawn.



# Busnes newydd yn y pentre

Mae'r arwydd newydd sydd ar hen siop y cigydd ar Kinmel Terrace wedi bod o ddiddordeb mawr i ni. Menter newydd o'r enw Tŷ Ceffyl Bach – yn gwerthu darnau cain wedi'u gwneud â llaw o bedolau.




Efallai eich bod wedi sylwi ar arwydd y tŷ ar Sgwâr yr Eglwys sydd wedi'i wneud o bedolau, a bydd y siop hon yn gwerthu eitemau tebyg, fel y canhwyllbren sydd yn y llun.

Dymunwn bob hwyl i Angela a Graham a diolchwn iddyn nhw am adfywio'r siop. Rhagor o fanylion i ddilyn y mis nesa.



# Canlyniadau eisteddfod rhanbarth yr Urdd, Sir Ddinbych

Efa Gwen Roberts: 1af llefaru unigol, 2il perfformiad theatrig unigol, Bl. 10–dan 19 oed.

Beca Evans: 3ydd unawd, 2il deuawd, 1af ensemble lleisiol, Bl. 10–dan 19

Nest Lloyd: 3ydd deuawd Bl. 7–9

Lloyd Powell: 1af unawd offer taro Bl. 7–9

Mason Powell a Tyler Chown: 1af ensemble offerynnol Bl. 7–9

Mabon Evans: 2il unawd offer taro Bl. 6 ac iau

Anna Griffith: 2il dawns hiphop/stryd/disgo unigol; 1af Pâr/triawd dawns hiphop/stryd/disgo, Bl. 7–9

Medi Evans, 3ydd llefaru unigol Bl. 2 ac iau

Leusa Jên Williams, 1af adroddiad unigol Bl. 3 a 4

Grŵp Eliza Chown, 2il perfformiad theatrig o sgript, Bl. 6 ac iau

Mabon Evans, 1af unawd cerdd dant, Bl. 3 a 4

Leusa Jên Williams, 3ydd unawd cerdd dant. Bl. 3 a 4

Pob dymuniad da i bawb a fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Meifod y mis nesa. Ymddiheurwn os ydym wedi hepgor rhywun oddi ar y rhestr.

## Capel y Dyffryn

***Y Gymdeithas*** Nos Lun, 5 Mawrth cynhaliwyd swper dathlu Gŵyl Ddewi gyda bwffe hyfryd. Yna diddanwyd y gynulleidfa gan y Pedwarawd soniarus *Tocsidos Blêr* o Ddyffryn Clwyd. Cyflwynwyd a diolchwyd gan Dafydd Meirion am noson hyfryd.



*Dafydd Meirion gyda Dyfan Phillips, Dafydd Roberts, Ifor Phillips ac Eirwyn Edwards*

## Cymanfa Ganu

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Sul y Blodau gofiadwy yn y capel nos Sul 24 Mawrth, pan ddaeth bron i gant o bobl i gydganu. Daeth y cantorion o bell ac agos i'r Gymanfa, a chyfeillion o Dde Affrica oedd yn aros yn yr ardal wedi mwynhau'r canu'n ofnadwy! Yr arweinydd oedd Trystan Lewis a Rhys Roberts wrth yr organ, a chafwyd datganiadau swynol iawn gan Beca, Sgubor Efa a Gwenan, Pen y Bryn. Cyflwynwyd a diolchwyd i bawb gan y Parch Andras Iago, a mwynhaodd nifer luniaeth ysgafn a sgwrs yn y festri yn dilyn y Gymanfa. Diolch i bawb fu'n cynorthwyo ar y noson, yn enwedig i Bryn (am y weledigaeth!), Anwen ac Ann am yr holl drefniadau a hysbysebu.



*O'r chwith: Rhys Roberts, organydd; Beca Evans a Gwenan Lloyd, unawdwyr; Trystan Lewis, arweinydd.*

# Cymdeithas Seryddiaeth Llandyrnog

Mae'n bleser cyhoeddi y bydd cyfarfod arbennig o'r gymdeithas nos Wener, 26 Ebrill yn neuadd y pentre. Byddwn yn croesawu'r aelodau Len Jones a Gareth Jackson a fydd yn rhannu eu gwybodaeth am y dulliau diweddaraf o dynnu lluniau sêr, gyda delweddau maen nhw wedi'u tynnu dramor ac yn lleol. Dewch i ymuno â ni am 7 o'r gloch, i ddechrau am 7.30. £5 fydd cost mynediad, neu gyfraniadau.

Bydd ein cyfarfodydd arferol yn parhau yn y Golden Lion, Llangynhafal, nos Fawrth, 30 Ebrill am 7 o'r gloch. Cysylltwch â ni ar astronomyjohn@gmail.com.

Rydym yn croesawu newydd, neu galwch heibio i weld beth rydym ni'n ei wneud ar nosweithiau tywyll.

# Ymweliad AoS

Roedd Gareth Davies, AoS Dyffryn Clwyd, wrth ei fodd yn cynnal un o'i gymorthfeydd rheolaidd yn yr Ystafelloedd Coco yn ddiweddar.

Daeth sawl un i'w weld, gan gyflwyno ymholiadau diddorol ar amrywiaeth eang o faterion personol a gwleidyddol. Roedd y rhain yn cynnwys cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer y cynllun ffermio cynaliadwy, trethi busnes yn Sir Ddinbych, gollyngiadau carbon a thargedau net-sero. Yn ogystal aeth i weld y siop a'r swyddfa bost.

Mae croeso i drigolion Llandyrnog sy'n dymuno cael apwyntiad neu gyngor ar unrhyw fater sy'n eu pryderu gysylltu â Gareth trwy unrhyw un o'r dulliau canlynol: Ffôn: 01745 703249,
E-bost: GarethL.Davies@senedd.wales,
Post: Swyddfa Gareth Davies AoS, Llys Bowen, Parc Busnes Llanelwy, Sir Ddinbych, LL17 0JE.

# Paracitiaid torchog

Mae gweld paracit torchog – *ring-necked parakeet*, aderyn nad yw'n gynhenid i Ynysoedd Prydain, yn arferol iawn mewn parciau a gerddi yn Llundain. Dydy hi ddim yn amlwg sut gyrhaeddodd creadur mor egsotig, ond y dybiaeth yw bod pâr naill ai wedi dianc o gaethiwed, neu, yn fwy tebygol, eu bod wedi'u rhyddhau'n fwriadol gan eu bod yn adar eitha swnllyd. Y naill ffordd neu'r llall, maen nhw wedi ffynnu cymaint, maen nhw wedi symud i'r gogledd i chwilio am le i fyw ers hynny. Maen nhw wedi'u gweld mewn parc ym Manceinion yn ddiweddar, lle maen nhw'n raddol wedi bod yn cymryd lle'r colomennod lleol.

Nawr, mae gwyliwr adar sylwgar wedi gweld pâr o baracitiaid torchog yng Nghoedwig Llangwyfan, ac mae'r aderyn lliwgar a swnllyd hwn wedi denu llawer o ddiddordeb o blith gwylwyr adar, sydd wedi heidio i'r ardal. Mae hyn wedi achosi gwrthdaro – rhai am beidio ag annog rhywogaeth a allai gael effaith niweidiol ar adar lleol, ac eraill am i'r paracitiaid gael aros. Beth yw'ch barn chi? Bydd wardeniaid lleol yn cadw golwg ar y sefyllfa.

**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101
Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068
Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)
Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

**James Davies, AS Dyffryn Clwyd**

james.davies.mp@parliament.uk

Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920

Swyddfa San Steffan: 0207 2194606

# Clwb Probus Dinbych a'r Cylch

Cafodd aelodau Clwb Probus Dinbych a'r Cylch ginio ardderchog yng ngwesty'r Oriel, Llanelwy ym mis Mawrth. Y siaradwr gwadd oedd Tony Griffiths, sy'n gwneud fideos dogfen. Mae ganddo fusnes a stiwdio tynnu lluniau a'u fframio, a siop: tonygriffithsphotography.uk/

Mae Tony wedi bod yn ymhél â thynnu lluniau ers dros ugain mlynedd ac mae ganddo allu arbennig ym mhob agwedd ar y cyfrwng, gan gynnwys gwaith lliw a du a gwyn. Mae arddangosfeydd o'i waith wedi bod yn sawl man, gan gynnwys Llyfrgell Prestatyn, Canolfan Gelfyddydau'r Rhyl, Oriel Eryri, Castell Penrhyn a Chanolfan Gelf Southport.

Roedd Tony yn bennaeth ysgol am 17 mlynedd cyn iddo ymddeol a dechrau ei fusnes a'r siop yn Ninbych yn fuan wedi hynny. Ddeng mlynedd yn ôl, dechreuodd wneud fideos dogfennol gyda chefnogaeth ffrindiau a gwirfoddolwyr lleol. Mae wedi gwneud wyth fideo, o dan yr enw North Wales Film Makers. Roedd yr un cyntaf yn adrodd hanes y trychineb ar y rheilffordd ger Abergele yn 1868. Mae pob un wedi'i wneud heb help ariannol. Mae ei fideos eraill yn cynnwys *The Fate of the Irish Mail*; *Cai Dai 1950's Museum*; *Images of North Wales*; *Bernard Willems, War Survivor-Artist Extraordinaire*; *Prestatyn and Meliden's Heritage*; *Pobl Hanesyddol Dinbych – No Mean Town* – pob fideo yn ddifyr, yn fanwl ac yn ddiddorol iawn. Mae adran ddoniol iawn ar ddiwedd pob fideo o'r troeon trwstan a ddigwyddodd wrth ei wneud!

Ar ôl gwrando ar hanes cefndir Tony a'i weithgareddau gwneud fideos, cafodd yr aelodau wylio'r fideo am amgueddfa Cae Dai. Perchennog yr amgueddfa yw Sparrow Harrison (a oedd yn fecanic yn wreiddiol) ac roedd yn flaenllaw yn y fideo, ynghyd â gwirfoddolwyr mewn gwisgoedd y 50au.

Cafodd yr amgueddfa stoc newydd a'i hailadeiladu ar ôl tân ofnadwy yn 2009. Ynddi mae casgliadau o fewn cyrraedd pawb – cewch



godi pethau i edrych arnyn nhw'n iawn. Mae'r casgliadau'n ymwneud â cheir clasurol, y campau, cerddoriaeth, ffilmiau, memorabilia troseddau, gan gynnwys y car a ddefnyddiodd lladron i ddianc ar ôl y *Great Train Robbery*. Mae rhai arteffactau o'r 1960au a'r 1940au hefyd ond cipolwg ar yr 1950au sydd ar gael yn bennaf. Mae'r eitemau'n amrywio o gar Cadillac pinc i gasgliad helaeth o bacedi sigaréts a memorabilia smocio. Mae'r amgueddfa yn mynd â chi'n ôl mewn amser go iawn – www.facebook.com/1950smuseum/.

Yn y tân, collodd yr amgueddfa y rhan fwyaf o'i cheir, ond atgyfododd y casgliad o'r llwch diolch i gyfraniadau gan fusnesau a phobl leol.

Mae'r amgueddfa, sydd ryw filltir y tu allan i Ddinbych, yn gweithredu ochr yn ochr ag Ymddiriedolaeth Cae Dai. Ar ôl i ysbyty seiciatrig Dinbych gau yn 1994, sefydlwyd yr ymddiriedolaeth i helpu pobl â phroblemau iechyd meddwl a chyflyrau bregus.

Roedd y fideo, gyda cherddoriaeth gefndir o'r cyfnod, yn tynnu sylw at sawl ffaith ddiddorol, e.e. ar ddiwedd yr 1950au, dim ond 367 o archfarchnadoedd oedd ym Mhrydain. Roedd gemau a jig-sos yn boblogaidd, ac roedd bar yn

# Clwb Probus: parhad

y lolfa yn beth moethus iawn mewn cartrefi pobl, a diod o Babycham i'w chael yno!

Fe aeth y fideo hefyd ag aelodau Probus i'r siop trin gwallt, i sioe Punch a Judy, a thynnu sylw at nifer y sinemâu a oedd yn bodoli yn y 50au. Roedd gan y rhain ran bwysig ym mywydau plant ac oedolion. Roedd smocio cetyn a sigaréts yn gyffredin iawn yr adeg honno, a throseddu'n beth cymharol brin.

Roedd y fideo'n rhoi sylw i gerddoriaeth y cyfnod, a Sparrow oedd y canwr yn y band Sparrow and the Gossamers. Bu'r band yn chwarae yng nghanol Llundain yn 1954, gan gyfarfod â PJ Proby, a byddai Alexis Korner yn chware yn lle eu gitarydd pan oedd yntau'n methu bod gyda nhw.

Ymddiddorodd Sparrow mewn bocsio yn ddiweddarach a daeth yn ffrind i'r gefeilliaid Kray a Bruce Reynolds, prif bensaer y Great




Train Robbery yn 1963. Oherwydd ei atal dweud, sefydlodd Sparrow Sefydliad Atal Dweud Prydain yn 1978. Yn 2015, cafodd yr MBE gan y frenhines am ei waith gydag elusennau.

Ar ddiwedd y fideo roedd casgliad hynod ddoniol o gamgymeriadau a throeon trwstan, gan ddangos yr ymdrech a'r amser sy'n ofynnol i gael y cynnyrch gorffenedig.

Bydd cyfarfod nesaf Clwb Probus Dinbych a'r Cylch ddydd Llun, 8 Ebrill pan fydd Brian Gresty yn sôn am 'Iron Mad Jack aka John Wilkinson'. Wedi hynny, testun sgwrs Chanel Jones ddydd Llun, 13 Mai, fydd 'We've got you framed'. Mae croeso cynnes bob amser i aelodau newydd.

Am ragor o wybodaeth edrychwch ar wefan y clwb, denbighprobus.com, neu cysylltwch â'r swyddogaeth aelodaeth, Andrew Faulkner, am ragor o fanylion: Afaulkner@btinternet.com, 07542 022391.

J & G

TYRE SERVICES



CAR - TRUCK - FARM TYRE SPECIALISTS

BATTERIES & EXHAUSTS

Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ

01745 817676
07775 717602

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**
Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies (cofnodion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams, Jane Borthwick.

# Llan Llanast

Yng nghyfarfod mis Mawrth edrychon ni ymlaen at Wythnos y Pasg. Roedden ni'n cofio fel roedd pobl yn chwifio'r canghennau palmwydd wrth i'r Iesu deithio i mewn i Jerwsalem ar gefn asyn ar Sul y Blodau – felly fe wnaethom ni ddail palmwydd a'u chwifio wrth i ni ganu *Cân Hosanna*. Gwnaethom ni faner fawr gan defnyddio siâp ein dwylo i'w dylunio. Bydd y faner hon i'w gweld o flaen yr allor yn yr eglwys. Gwnaethom ni ein pitsas ein hunain, a'u mwynhau gyda'n te. Roedd pawb yn dweud eu bod yn flasus iawn.



Bydd ein sesiwn nesaf bnawn dydd Sul, 14 Ebrill am 3.30pm yn y Neuadd. Croeso i bawb, ond cofiwch chi blant ddod ag oedolyn gyda chi

*Mary Steel*




# Rysáit

***Cacennau cri â chic (Jin a Lemwn)***

***Cynhwysion***
225g o flawd codi
100g o fenyn hallt
75g o siwgwr caster
75g o swltanas
1 llwy de o sbeis cymysg
Croen ½ lemwn wedi'i gratio
1 wy
1 llwy bwdin (10ml) o laeth
3 llwy fwrdd (45ml) o Jin

**Dull**
Rhowch y swltanas mewn bowlen, adio'r Jin (Jin Shlizzy!!). Cymysgwch, a'u gadael i fwydo am o leiaf 2 awr neu dros nos.

Gogrwch y blawd codi i fowlen, ac adio'r menyn a'i friwsioni. Adiwch y sbeis, y swltanas a'r jin, y siwgr a'r lemwn. Cymysgwch yn dda, yna adio'r wy a'r llaeth, a dal i gymysgu hyd nes ei fod yn belen o does gweddol sych. Rholiwch y toes i tua 1cm o drwch, a'i dorri'n gylchoedd. Gosodwch y cylchoedd ar radell neu badell ffrio drwchus wedi'i hiro â menyn. Coginiwch nhw am tua 4/5 munud neu nes eu bod yn frown golau, eu troi, a'u crasu'r un modd yr ochr arall. Tynnwch o'r gwres a'u gosod ar rac fwyd, ysgeintio â siwgr castor tra maen nhw'n boeth.
Mwynhewch !

*Iestyn Jones Evans*

# Tuesday Club

Yng nghyfarfod mis Mawrth, buon ni'n dathlu dydd gŵyl ein nawddsant. Roedd yr Ystafelloedd Coco wedi'u haddurno'n lliwgar gyda'r ddraig goch, cennin Pedr a blodau'r gwanwyn – cefndir perffaith i wylio fideos a oedd yn gysylltiedig â Dewi Sant. Y cyntaf oedd Llion Williams yn portreadu hanes Dewi mewn modd ysgafn, a'r ail yn recordiad o Mei Gwynedd yn canu *Pethau Bychain* mewn siop Tesco. Roedd hwn yn berfformiad llawen iawn, gyda chantorion ac offerynwyr niferus yn ymuno â Mei wrth i'r gân mynd yn ei blaen a'r siopwyr wedi cael modd i fyw. Y fideo olaf oedd recordiad o orymdaith Dydd Gŵyl Dewi Sant yn Ninbych, gyda 650 o blant o 12 ysgol yn cymryd rhan ynddi – achlysur llawen iawn.

Gweinwyd cacennau cri a bara brith gyda'r baned arferol a threfnwyd y bore coffi ar gyfer y dydd Sadwrn canlynol. Daeth llawer i'r neuadd a chodwyd cyfanswm o £430 – £230 wedi'u cyfrannu at Feiciau Gwaed Cymru. Bydd y cyfarfod nesaf 17 Ebrill – croeso i aelodau newydd ymuno â ni.




*Daeth un o feicwyr y gwasanaeth Beiciau Gwaed â'i BMW i fore coffi blaenorol a drefnwyd i godi arian i'r gwasanaeth hanfodol hwn.*



*Yn y bore coffi, oedd nifer o docynnau raffl John Rowlands yn rhai lwcus iawn!*

# Trefoil Guild



Daeth 16 o blant Ysgol Bryn Clwyd at y Trefoil Guild i ganu i'r aelodau. Wedyn fe fwynhaon nhw ddiod a Kit-Kats gyda ni cyn mynd 'nôl i'r ysgol.

Cafodd yr aelodau baned a chacennau cri i ddathlu dydd Gŵyl Dewi. Jennie Quirk enillodd y raffl. Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Llun, 8 Ebrill a'r thema fydd chwaraeon bwrdd.

# Sefydliad y Merched

Cyfarfu'r aelodau Nos Fawrth 7 Mawrth yn yr Ystafelloedd Coco, pan ddaeth yr aelodau â lluniau o briodasau i'w dangos, a rhyfeddu at ffasiynau'r dillad yn y 1970au a'r 1980au! Yn anffodus, roedd Anwen ein siaradwraig, yn analluog i fod yn bresennol, a dymunwyd yn dda i'w thad oedd ddim yn hwylus iawn. Felly cafwyd cwis hwyliog am siocledi a dinasoedd!

Roedd y grŵp wedi prynu coeden afal pipin *Cox* i'w phlannu yn Ysgol Bryn Clwyd. Aeth Betty, Geraint a minnau i'r ysgol i'w phlannu gyda chymorth rhai o aelodau cyngor Eco'r ysgol a'r Pennaeth Mr Ben Lindquist. Roedd y disgyblion yn dangos cryn ddiddordeb yn y gwaith. Bydd y Sefydliad yn cyflwyno plac ymhen amser.

Bydd ein cyfarfod nesaf 2 Ebrill, croeso i bawb – mae'n hwyl ac yn noson ymlaciol dros ben!

*Jane Borthwick*










# Cymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan

Cafodd Dr Rachel Pope groeso gan aelodau ac ymwelwyr Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan i'w cyfarfod ym mis Mawrth. Testun sgwrs Rachel oedd canlyniadau'r cloddio ym Mhenycloddiau. Mae Dr Rachel Pope yn ddarllenydd mewn archaeolog Ewropeaidd cynhanesyddol, y clasuron ac Eifftoleg ym Mhrifysgol Lerpwl.

Mae Penycloddiau yn ardal ac yn fryn uwchben Llangwyfan ac mae'n un o'r tirweddau mwyaf pwysig yn hanesyddol yn y wlad. Mae tystiolaeth o sawl bryngaer yr Oes Haearn ar ei frig ag arwynebedd o 19 hectar – y mwyaf yng Nghymru.

Rhwng 2012 a 2018, Rachel oedd cyfarwyddwyr cloddfeydd y Brifysgol ar fryngaer Penycloddiau mewn partneriaeth â Cadw, Cyngor Sir Ddinbych, a'r Global Institute for Field Research (California). Cafwyd cip ar y gwaith hwn ar gyfres y BBC, *Digging for Britain*.

Yn ogystal, gweithiodd tîm Lerpwl mewn partneriaeth â chloddfeydd Prifysgol Rhydychen ar fryngaer Bodfari, i'n helpu ni i ddeall pobl gynhanesyddol Gogledd Cymru a sut datblygodd bryngaerau ar lwybr pwysig Bryniau Clwyd.

Esboniodd Rachel fod y gloddfa wedi datgelu chwe cham wrth adeiladu Penycloddiau. Roedd camau 1–3 wedi digwydd ddiwedd yr Oes Efydd (1200–800 BC). Datgelodd y rhain bren derw a ffens blethedig o bren y gollen. Roedd hyn yn dangos bod y bobl yn rheoli coetir ac yn gofalu am y dirwedd. Codwyd rhagfur – *rampart* – yn fuan wedyn, ond llosgodd hwn yn ulw yn gyflym. Ar ôl hyn, doedd neb yn byw ar y bryngaer am gyfnod.

Yn anffodus, dydy dyddio radiocarbon y tri cham diweddarach yn dda iawn oherwydd pan gafodd y rhagfuriau pridd a charreg eu codi, roedden nhw'n cynnwys deunydd a oedd yn weddill o danau yn y cyfnod Neolithig cynnar.



*O'r chwith: Erin Lloyd Jones, archaeolegydd; Gwyn Howatson, a fu'n cloddio'r tir â pheiriant; Dr Rachel Pope, Prifysgol Lerpwl; Rod Williams, tirfeddiannwr; Julia Hughes, cadeirydd.*

Fodd bynnag, gallwn ddweud bod Camau 4–6 yn debygol o fod o'r Oes Haearn cynnar–canol (800–100 BC). Datgelodd y rhain ragfur isel, a'i uchder yn amrywio.

Casglwyd nifer o samplau pridd yn ystod y cloddio a'u hanfon i Lerpwl. Datgelodd y rhain nad oedd preswylwyr y fryngaer yn ffermwyr tir âr – pobl ac anifeiliaid oedd yno, yn byw yno yn yr haf pan oedd y tywydd yn dda. Mae'n debyg bod y bobl yn dod o bell i'r fryngaer, am gyfnod o fil o flynyddoedd, o 1200 hyd at 200 CC, er bod y gaer yn wag rhwng yr Oes Efydd a'r Oes Haearn.

Yn 2020 digwyddodd rhagor o waith dyddio carbon a gadarnhaodd saith cyfnod yn hanes y fryngaer: dau balis o gyfnod hwyr yr Oes Efydd, rhagfur carreg a phren a gafodd ei losgi, tri cham o ragfur carreg o Oes yr Haearn, a thŷ ar blatfform o'r ail ganrif CC.

Diolchodd Rod Williams i Rachel am y sgwrs a'r cyflwyniad addysgiadol a diddorol, tirfeddiannwr lleol sy'n berchen ar y rhan fwyaf o'r fryngaer.

# Neges gan ein hoffeiriad

**Pryd o fwyd am ddim**
Wrth i mi ysgrifennu hwn, rwy'n glyd ac yn gynnes yng Nghanolfan Eglwys Henllan. Weithiau byddai dad yn dweud, pan oeddwn i'n iau, 'Does mo'r fath beth â chinio am ddim.' Ers mwy na blwyddyn erbyn hyn, nid felly y mae hi ym man cynnes Henllan, gyda gwirfoddolwyr sydd wedi bod yn gweini 50–60 pryd bob wythnos, yn rhad ac am ddim. Dechreuodd y cynllun trwy weini cawl a phaned mewn man cynnes dros y gaeaf, ond mae wedi parhau ac wedi datblygu i roi prydau llawn gyda phwdinau a dewis da. Dewis yn well na sawl caffi, hyd yn oed.



Mae'r Pasg yn gynnar eto eleni. Pryd bynnag mae'n digwydd, dyma fy hoff ddathliad Cristnogol oherwydd popeth sydd wedi arwain ato. Ond hefyd oherwydd llawenydd llwyr y gwirionedd am ddaioni Iesu a'r cyfan mae wedi'i wneud a'i gyflawni. Yn Dduw ac yn ddynol ym mhob ffordd bosib, mae'r ffaith fod Iesu yn atgyfodi o'r hyn a oedd yn ymddangos fel marwolaeth bendant, yn cadarnhau'r gwirionedd hyn. Oherwydd yng ngrym yr Ysbryd Glân, sydd wedi atgyfodi ar ffurf dynol, mae Iesu yn dal i fendithio cymaint o bobl ledled y byd, bob dydd.

**Tawelwch eich amheuon**
Wrth feddwl am y Pasg a dechrau codi waliau/rhwystrau i osgoi ymateb yn naturiol i Dduw – mae'n adeg i chi gael eich gollwng yn rhydd. Dyma lawenydd dwysaf y gwirionedd ysgubol am yr hyn a ddigwyddodd gydag atgyfodiad Iesu.

Gwellhad yw daioni mesuradwy Iesu a'r bobl sy'n gadael i'w ras eu cyffwrdd, ac weithiau mae'r gwellhad yn wyrthiol. Os ydym yn byw ein bywydau mewn ffordd ysbrydol, iach, ac yn deall pwy ydyn ni a beth yw ein pwrpas, mae Iesu yn ymwneud â'n gwellhad ni. Mae creawdwr y cosmos yn ein caru a ninnau ddim hyd yn oed cymaint ag atom o gymharu â maint y cyfan.

Ni ddylid amau'r gwirionedd hwn fel y dywediad adnabyddus a ddefnyddiais ar y dechrau, ond i'r gwrthwyneb. Mae gwledd o liw a chariad di-ben-draw yn eich disgwyl os gwnewch chi ildio i gariad Duw yng Nghrist Iesu.

**Deffrwch i'r gwirionedd**
Mae gwir orfoledd y gwirionedd am gariad Duw yn gwneud byd o les i bawb sy'n deffro iddo. Does dim byd ynddo i'ch maglu, dim cynllwynio cudd – anwybyddwch eich amheuon a gwrandewch ar alwad tyner Duw ar eich bywyd.
Ar ran Ardal Genhadu Dinbych, yr Eglwys yng Nghymru,
Y Parchedig Martin Pritchard

# Undeb y Mamau

Yng nghyfarfod mis Mawrth, cynhaliwyd gwasanaeth i ddathlu diwrnod Gŵyl Fair a oedd yn cael ei chynnal ar 25 Mawrth. Gelwir hyn hefyd yn 'Gyfarchiad', pan ymddangosodd yr Angel Gabriel i Mair, a dweud wrthi y byddai hi'n fam i'r Iesu. Ar un ystyr, dyma lle mae'r stori'n dechrau. Er gwybodaeth, dim ond 268 niwrnod sydd tan y Dolig!

*Mary Steel*

# Cyngor Cymuned Llandyrnog

Trafodwyd y materion canlynol yng nghyfarfod mis Mawrth:

Cais cynllunio i adnewyddu 4 a 5 Sgwâr yr Eglwys a darparu lle parcio ychwanegol gyda'r mynediad oddi ar Barc Ty'n Llan: Roedd y Cyngor Cymuned yn croesawu'r gwelliannau i'r eiddo, er bod ambell bryder am y mynediad newydd i gerbydau a allai olygu colli cilfan parcio sy'n cael ei defnyddio'n gyson.

Cais cynllunio i ddileu'r amod meddiannaeth amaethyddol ym Maes y Wern: Os yw'r awdurdod cynllunio yn fodlon bod pob maen prawf yr arweiniad perthnasol – SPG 9 – wedi'i fodloni, ni fydd unrhyw wrthwynebiad.

Gwnaeth tîm y siop a'r swyddfa bost gais i ddefnyddio Cae Nant fel maes parcio ychwanegol. Roedd pryderon y byddai caniatáu cais o'r fath fod yn erbyn telerau'r les, ac yn gosod cynsail a fyddai'n dod â chyfrifoldebau ychwanegol posib yn ei sgil o ran atebolrwydd.

Clywyd bod lori a oedd yn danfon olew yn ardal Llangwyfan wedi gyrru'n anfwriadol i rigol ddofn iawn sydd wedi ffurfio ochr yn ochr â'r ffordd. Trafododd y cyngor berygl y rhigolau hyn i'r rhai sy'n defnyddio'r ffordd, yn enwedig yn ystod tywydd gwlyb pan mae dŵr yn eu llenwi ac yn ei gwneud hi'n amhosib barnu pa mor ddwfn y maen nhw. Bydd y clerc yn riportio hyn i'r awdurdod priffyrdd ar unwaith.

Yn ystod trafodaethau am goffáu 80 mlynedd ers D-Day ym mis Mehefin, penderfynwyd gofyn a fyddai cwmni Procter Johnson yn fodlon codi baner ar ran y gymuned. Hefyd penderfynwyd holi a allai'r Cyngor Cymuned brynu polyn fflag ar gyfer tir yr ysgol i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Y farn oedd y byddai'n declyn defnyddiol iawn i ddysgu'r plant, gan fod cymaint o ddyddiau i'w coffáu.

Wi-Fi yn yr Ystafelloedd Coco: mae cais llwyddiannus am arian grant wedi caniatáu i'r cyngor cymuned osod yr offer electronig diweddaraf yn yr Ystafelloedd Coco. Mae Wi-Fi yno rŵan i'r cyhoedd ei ddefnyddio, a chyn bo hir bydd sgriniau ac offer darlledu yn galluogi cynnal cyfarfodydd rhithiol a hybrid. Mae'r offer wedi'i archebu a chyn bo hir bydd hi'n bosibl llogi'r lle ar gyfer cyfarfodydd rhithiol neu fel man tawel i chi weithio ar-lein.


**DBP** Denbigh Building Plastics

*SUPPLIERS & INSTALLERS*

*U_PVC windows, doors, rockdoors, secondary double glazing, sealed units. Conservatories, porches, garage doors, fascias, gutters, dry verge system, Firestone rubber roofing and canopies.*

Unit 7
Colomendy Industrial Estate
Denbigh LL16 5TA
01745 818849
**Open Mon—Fri 7.30am—5 pm**
**Sat 9 am—12 pm**


**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*

*Neu gadewch neges ar Facebook*

*Argraffwyd gan Mike Neuman www.neumannprintersdenbigh.co.uk 01745 814067*